

Alun Davies Y Comisiwn Archwilio AC  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a  
Gwasanaethau Cyhoeddus  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a  
Gwasanaethau Cyhoeddus



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA - P/ARD/2675/18

Mick Antoni  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

14 Awst 2018

Annwyl Mick

## Canllawiau Cyfatebol ar Ddatganoli - Nodyn Cyfarwyddyd 18

Diolch ichi am eich llythyr 11 Gorffennaf yn gofyn ynghylch y Canllawiau Cyfatebol y cyfeirir atynt ym mharagraff 20 o'r Concordat rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Bwriedir diwygio Canllawiau Cyfatebol Llywodraeth Cymru er mwyn cymryd i ystyriaeth y model cadw pwerau ar gyfer datganoli a sefydlwyd o dan Ddeddf Cymru 2017 yn yr un ffordd ag y mae Nodyn Cyfarwyddyd newydd Llywodraeth y DU ar Ddatganoli wedi cael ei ddiweddarau. Bydd yn darparu cyngor a chanllawiau i swyddogion Llywodraeth Cymru yn yr un ffordd ag y mae Nodyn Canllawiau Cyfatebol Llywodraeth y DU ar Ddatganoli'n ei wneud ar gyfer swyddogion y DU.

Bydd y canllawiau'n parhau i ganolbwyntio ar ymdrin â deddfwriaeth mewn ffordd effeithlon ac effeithiol a sut y bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU'n cydweithio lle bo gan y ddwy ohonom fuddiant. Bydd yr un egwyddorion o ymgynghori'n gynnar ar gynigion deddfwriaethol a allai effeithio ar gyfrifoldebau ymarferol neu gyfrifoldebau polisi ei gilydd yn parhau i fod yn berthnasol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y canllawiau diwygiedig.

Rydym yn disgwyl i'r Canllawiau Cyfatebol barhau i gwmpasu biliau'r Cynulliad a Biliau Seneddol a'r ffyrdd o addasu cymhwysedd y Cynulliad a phwerau Gweinidogion Cymru.

Fel o'r blaen, dylid eu darllen ar y cyd â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Alun.Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Alun.Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eir ati yn ystod toriad yr haf i ddrafftio'r canllawiau diwygiedig a dylai fersiwn derfynol fod ar gael yn nhymor newydd y Cynulliad. Gellir rhoi copi o'r Canllawiau Cyfatebol terfynol i'r Pwyllgor maes o law.

Yn gywir



**Alun Davies AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus  
Cabinet Secretary for Local Government and Public Services